


Gwybodaeth i gleifion Mynd adref gyda draen abdomenol

Cyngor i gleifion a Theuluoedd/Gofalwyr
Adran Llawfeddygaeth Gyffredinol

Beth yw draen?

Mae draen llawfeddygol yn **diwb sy'n hwyluso tynnu gwaed, crawn, neu hylifau eraill**, gan eu hatal rhag cronni o fewn clwyf neu geudod. Mae'r hylif hwn, a elwir yn archwysiad (*exudate*), yn hylif clir, lliw gwellt sy'n ffurfio'n naturiol fel rhan o'r broses iacháu. Bydd pen y tiwb sy'n dod allan o'r corff yn cael ei gysylltu i fag er mwyn i weithwyr proffesiynol iechyd fonitro'r swm a'r lliw.




Pam mae angen draen arnaf?

Mae meinweoedd y corff sy'n cael eu torri yn ystod llawdriniaethau yn gollwng hylif ar ôl llawdriniaethau. Os credir bod llawer iawn o hylif yn gollwng neu ei fod yn fath o hylif a allai achosi mwy o broblemau i'ch iechyd, e.e., beil, yna mae'n ddefnyddiol draenio'r hylif y tu allan i'r corff. Bydd hyn yn helpu gyda'r broses iacháu, yn lleihau poen/anghysur a chwyddo ac yn helpu i atal heintiau mewnol (gall hylif sy'n casglu yn y corff achosi poen ac achosi heintiau o bosibl). Yn ogystal, defnyddir draeniau yn aml i helpu atal ffistwlâu (cysylltiadau annormal).

Caiff draen ei osod yn yr amgylchiadau canlynol

- **I ddraenio crawniad yn yr abdomen** neu gasgliad megis rhydyllu'r Goden Fustl neu grawniadau cildroadol mwy.
- **Ar gyfer cleifion llawfeddygol risg uchel:** Ar gyfer cleifion nad ydynt yn ymgeiswyr addas ar gyfer llawdriniaethau i dynnu'r Goden Fustl ar unwaith (cholecystectomy) oherwydd salwch difrifol, oedran, neu gydforbidrwydd, mae cholecystostomi yn opsiwn mwy diogel, dros dro.
- **Fel triniaeth ddiffiniol** ar gyfer y rhai nad ydynt yn fodlon cael llawdriniaeth.

- **Gwaedu ar ôl llawdriniaeth:** Monitro a draenio gwaed yn yr abdomen ar ôl llawdriniaeth.
- **Crawniad hylif pancreatig:** I ddraenio crawniadau o hylif pancreatig, gan gynnwys ffug-godennau neu ollyngiadau.



Pa mor hir y bydd angen y draen arnaf?

Bydd hyn yn dibynnu ar y math o lawdriniaeth rydych chi wedi'i chael ac amgylchiadau unigol. Bydd hefyd yn dibynnu ar faint o hylif sy'n draenio a'r math o hylif ydyw. Mae'n bwysig nodi lliw yr allbwn a thrafod hyn gyda'ch meddyg ymgynghorol pan fyddwch yn dychwelyd ar gyfer eich apwyntiad dilynol. Mae'r draen yn cael ei gosod a'i gadael yn ei lle am sawl diwrnod i ganiatáu draenio parhaus nes bod yr haint wedi ei datrys.

A fyddaf yn teimlo unrhyw boen o'r draen?

Efallai y byddwch chi'n teimlo anghysur o amgylch y draen. Efallai y byddwch hefyd yn cael anghysur/poen yn fewnol lle mae'n rhwbio yn erbyn meinweoedd ac organau h.y. ar ôl llawdriniaeth Coden Fustl. Gall y draen eistedd o dan yr afu ac achosi poen/anghysur, yn enwedig wrth symud. Cymerwch boenleddfwyr i leddfu hyn. Mae'n bwysig dal ati i symud, er mwyn osgoi cymhlethdodau eraill ar ôl y

lawdriniaeth megis heintiau ar y frest a thrombosis gwythiennau dwfn (clotiau gwaed).

A fyddaf yn mynd adref gyda'r draen i mewn?

Os ydych chi'n iach yn glinigol ac nad oes angen i chi fod yn yr ysbyty ond bod angen y ddraen arnoch o hyd, efallai y cewch eich rhyddhau gyda'r draen yn dal yn ei le. Nid yw hyn yn anarferol ac nid oes angen poeni. Gall nyrs ardal neu nyrs practis eich cynorthwyo gyda'r draen a monitro'r croen o amgylch y draen. Bydd y nyrs sy'n gofalu amdanoch yn dangos i chi sut i ofalu am y draen ac yn rhoi'r cyflenwadau sydd eu hangen arnoch i chi.

Beth sydd angen i mi ei wneud gartref?

- Gwiriwch y draen, newidiwch y bag neu newidiwch y dresin os oes angen. Dylech sicrhau eich bod yn golchi'ch dwylo'n drylwyr cyn ac ar ôl cyffwrdd â lleoliad y draen gyda dŵr a sebon a thywel glân. Dangosir i chi sut i gysylltu bagiau glân cyn eich rhyddhau.
- Byddwch yn ofalus rhag dal y draen ar unrhyw ddodrefn rhag iddo gael ei dynnu allan.
- Cadwch y draen yn is na'r clwyf er mwyn sicrhau bod y draenio'n parhau.
- Mesur y draeniad; Dylech fesur y draeniad tua'r un amser bob dydd neu pan fydd y bag yn 2/3 llawn (pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf). Gwagiwch y bag i mewn i jwg neu gynhwysydd a nodwch y swm mewn mililitrau a lliw yr hylif a chofnodwch y rhain ar y siart a ddarperir. Mae'n bwysig nodi lliw yr hylif sy'n dod allan gan fod hyn yn dangos beth allai fod yn draenio. Er enghraifft, mae beil yn wyrdd, mae gwaed yn goch ac mae meinwe yn felyn. Mae'n bwysig cadw golwg ar faint o hylif sy'n dod drwy'r draen fel y gallwch adnabod beth yw allbwn arferol i chi a phryd nad yw rhywbeth yn iawn. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i wybod pryd y gellir tynnu'r draen.

Pryd ddylech chi ffonio am gymorth?

Os oes gennych broblem, peidiwch â phoeni, cysylltwch â'r rhif isod:

Os yw'r pwyth sy'n dal y draen yn ei le yn dod yn rhydd, gosodwch ddresin yno i gadw popeth yn ei le os yn bosibl. Byddwch wedi cael dresin gan eich nyrs cyn i chi adael yr ysbyty.

Os yw'r draen yn dod allan, rhowch ddarn o rwyllen neu ddresin glân dros y man.

Mae arwyddion o haint yn cynnwys:

- ❖ Mwy o chwyddo.
- ❖ Cochni.
- ❖ Crawn melyn neu wyrdd (mae'n hylif cymylog fel arfer).

- ❖ Arogl gwael
- ❖ Mwy o boen o amgylch y man draenio.
- ❖ Os byddwch yn sylwi ar unrhyw un o'r rhain, cysylltwch â'r ysbyty ar y rhif a roddwyd i chi i drefnu amser i ddod i mewn am asesiad a chael newid y pwyth neu ailosod y draen os oes angen.

Sut bydd y draen yn cael ei dynnu?

Bydd y draen yn cael ei dynnu ar ôl cynnal asesiad ac ymgynghoriad priodol â'r tîm llawfeddygol. Bydd y meddyg neu'r nyrs yn trafod y cynllun gyda chi. Bydd y pwyth sy'n dal y draen yn ei le (nid oes pwyth bob amser) yn cael ei dorri a'r draen yn cael ei dynnu allan yn araf. Yna bydd dresin neu fag clwyfau bach yn cael ei osod ar y lleoliad. Gall barhau i ollwng ychydig o hylif wedyn. Byddwch yn cael rhai darnau o ddresin neu fagiau sbâr i'w gosod eich hun gartref.

Gobeithiwn eich bod chi'n gweld y daflen hon yn ddefnyddiol. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

Uned Asesu Llawfeddygol (SAU): 01633 493341

Ward B0: 01633 493929

Ward C0: 01633 493924

Ward D3 y Gorllewin: 01633 234041

Ward D3 y Dwyrain: 01633 234037

Os ydych yn teimlo na allwch reoli eich draen yna cysylltwch â'ch ward rhyddhau fel uchod.

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English".

Adolygydd

Bindu Kuttipuram Varghese (MSc ACP)

Siart Draenio

[illegible]